

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2003 Rhif (Cy.)

LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU

Rheoliadau Tenantiaethau Preswyl
Hir (Prif Ffurflenni) (Diwygio)
(Cymru) 2003

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio dwy ffurflen sydd wedi'u rhagnodi at ddibenion Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (diogelwch deiliadaeth wrth derfynu tenantiaethau preswyl hir).

Mae'r ffurflenni y mae'r diwygio hwn yn effeithio arnynt i'w gweld yn yr Atodlen i Reoliadau Tenantiaethau Preswyl Hir (Prif Ffurflenni) 1997. Mae newidiadau yn cael eu gwneud i'r nodiadau ar ddiwedd Ffurflenni 1 a 2 yn dilyn y diwygiad i adran 16 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Prydlesi 1967 gan adran 143 o Ddeddf Cyd-ddeiliadaeth a Diwygio Cyfraith Prydlesi 2002 (a gafodd ei dwyn i rym yng Nghymru ar 1 Ionawr 2003 gan O.S. 2002/ (Cy.)). Mae yna newidiadau drafftio eraill.

2003 Rhif (Cy.)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Tenantiaethau Preswyl Hir (Prif Ffurflenni) (Diwygio) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud 2003

Yn dod i rym 28 Chwefror 2003

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan baragraff 4(1) o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Teitl, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tenantiaethau Preswyl Hir (Prif Ffurflenni) (Diwygio) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 28 Chwefror 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

Diwygio

2.—(1) Mae Ffurflenni 1 a 2 yn yr Atodlen i Rheoliadau Tenantiaethau Preswyl Hir (Prif Ffurflenni) 1997 yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle nodiadau 2 a 3 ar ddiwedd pob ffurflen, rhowch—

“**Note 2:** Schedule 10 to the Local Government and Housing Act 1989 provides that a tenant of residential property under a long residential tenancy has a right, at the end of the original term of the tenancy, to continue as a tenant on the same terms as before unless the landlord ends the tenancy in accordance with the provisions of that Act. But see also Note 3.

Note 3: In certain circumstances, Schedule 10 does not apply and the landlord can end your tenancy by giving notice in accordance with the

ordinary requirements of the law. These circumstances include cases where:

- (a) you pay more than a low rent (see paragraph 2(4) and (5) of Schedule 10) unless the property is a house and the tenancy has been extended under section 14 of the Leasehold Reform Act 1967, in which case Schedule 10 applies regardless of whether a low rent is being paid;
- (b) the property has a high rateable value (see paragraph 2 of Schedule 1 to the Housing Act 1988, unless the long tenancy was granted after 31st March 1990, in which case paragraph 1(2A) of Schedule 10 applies);
- (c) the tenancy does not meet certain requirements for the existence of an assured tenancy set out in Part 1 of Schedule 1 to the Housing Act 1988— for instance because the landlord is the Crown, a local authority or another exempt landlord;
- (d) the property is a flat whose lease was extended under Chapter 2 of Part 1 of the Leasehold Reform Housing and Urban Development Act 1993, by virtue of section 59 of that Act.

The above is not intended to give a full account of all the circumstances in which Schedule 10 does not apply. Legal advice should be sought if there is any doubt as to whether Schedule 10 applies in a particular case.”

Cymhwyso

3. Nid oes dim yn y Rheoliadau hyn yn effeithio ar ddilysrwydd hysbysiad a gyflwynwyd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1)

Dyddiad

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(1) 1998 p.38.